Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Glan Y Môr

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Glan y Môr yn gymuned ofalgar sy'n rhoi pwyslais ar feithrin ymdeimlad o gymuned a chefnogi lles disgyblion a staff. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion ac mae amgylchedd dysgu pwrpasol. O ganlyniad, yn ystod wythnos yr arolygiad, roedd ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r ffordd mae'n hyrwyddo balchder yn iaith a diwylliant Cymru. Mae adran y Gymraeg a'r pwyllgor Cymreictod yn trefnu amrywiaeth o brofiadau cyfoethog i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'u bro ac annog balchder at yr iaith. Yn ogystal, mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddarperir i drafod testunau cyfoes a materion pwysig trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a diwylliannol mewn digwyddiadau megis Gŵyl Glan y Môr ac amrywiol weithgareddau'r adran addysg gorfforol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddylanwadu ar waith yr ysgol trwy Senedd yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei gweithdrefnau i wella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith, ac o ganlyniad, nid yw presenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, wedi gwella. Yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw'r ysgol i fater diogelu yn ymwneud â threfniadau amser cinio.

Mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi a dros amser, Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir a phwrpasol ar gyfer adnabod a chefnogi'r disgyblion hyn. Yn yr ychydig wersi ble mae'r addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Mae hyn yn aml o ganlyniad i ddiffygion yng ngwaith cynllunio athrawon. Nid yw disgwyliadau lleiafrif o athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni mewn gwersi unigol a thros amser yn ddigon uchel. Er bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth yn ddigon cydlynol fel bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol.

Cefnogir y pennaeth yn bwrpasol gan aelodau'r uwch dîm arwain. Maent yn gweithio'n ddiwyd i ddiwallu eu dyletswyddau, er mae gan rai faich gwaith rhy drwm sy'n golygu nad ydynt bob amser yn gallu gweithredu'n ddigon strategol i yrru gwelliannau. Mae gan yr ysgol galendr buddiol o weithgareddau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn arfarnu'n ddigonol effaith yr addysgu a'r ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Golyga hyn nad ydynt yn adnabod yr union feysydd sydd angen eu gwella yn ddigon miniog ac nid ydynt bob amser yn dal y rhai maent yn eu harwain yn ddigon atebol am ansawdd eu gwaith.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pump argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad**

**A2 Gwella presenoldeb**

**A3 Sicrhau bod athrawon bob amser yn cynllunio'r addysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y medrau, i herio disgyblion hyd eithaf eu gallu.**

**A4 Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol gan gynnwys sut y dosrennir cyfrifoldebau i gynyddu capasiti mewn meysydd pwysig i'w gwella a chynyddu atebolrwydd.**

**A5 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ffocysu ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion**

**Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.